# Helo a chroeso i WOW – yr her cerdded i'r ysgol!

WOW yw un o fentrau newid ymddygiad mwyaf blaenllaw'r DU, a gyflwynir gan Living Streets, elusen y DU ar gyfer cerdded bob dydd. Mae'n wych cael eich ysgol yn rhan o'r her eleni.

Bydd y fenter a arweinir gan ddisgyblion yn gweld plant yn cofnodi'n ddigidol sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Os ydynt yn teithio'n llesol (cerdded/troelli, seiclo, sgwtera neu Barcio a Cherdded) o leiaf unwaith yr wythnos am fis, cânt eu gwobrwyo â bathodyn WOW. Mae mor hawdd â hynny!

## Hyrwyddwr WOW a'ch pecyn croeso

Yn gyntaf, penodwch 'Hyrwyddwr WOW', sef rhywun o fewn yr ysgol a fydd yn arwain ar y fenter. Mae'r Pecyn Croeso WOW hwn wedi'i rannu'n ddwy ran:

1. **Adnoddau i'r Hyrwyddwr WOW**
   - Canllaw croeso – yn rhoi cymorth wrth ddechrau arni ac yn darparu dolenni sy'n cefnogi adnoddau digidol.
   - Poster WOW – rhowch hwn i fyny a gadewch i bawb wybod eich bod yn ysgol WOW!
2. **Gwybodaeth i staff ystafell ddosbarth**
   - 25 o ganllawiau defnyddiol i'w rhannu gyda phob dosbarth – peidiwch ag anghofio ychwanegu côd mynediad ystafell ddosbarth tri gair yr ysgol yn gyntaf!

Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau digidol ar gyfer staff ysgol, disgyblion, rhieni a gofalwyr ar gael yn **livingstreets.org.uk/wowlaunch.** Ar y dudalen hon byddwch hefyd yn dod o hyd i **lythyr at rieni a gofalwyr** – argraffwch a rhannwch hwn i roi gwybod i bawb am WOW. Mae un ochr i ysgolion WOW newydd ac un ochr i ysgolion sy'n dychwelyd.

## Bathodynnau WOW

Mae'r bathodynnau i gyd wedi cael eu dylunio gan ddisgyblion ledled y DU fel rhan o'n Cystadleuaeth Dylunio Bathodyn WOW blynyddol. Maent yn cael eu creu yng Nghernyw o ddeunydd plastig wedi'i ailgylchu a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi, gan gynnwys hen hambyrddau oergell, platiau plastig a thoriadau potiau iogwrt. Am ragor o wybodaeth, ewch i: **livingstreets.org.uk/recycling**

Bydd disgyblion yn ymuno â thaith gyffrous eleni yn *Nhaith Gerdded Natur Prydain*. Nod y thema hon yw dod â disgyblion yn nes at fyd natur Prydain! Wrth i ddisgyblion gerdded i'r ysgol drwy'r flwyddyn byddant yn dysgu ac yn casglu bathodynnau sy'n darlunio tirwedd ac anifeiliaid trefol a gwledig Prydain. Mae tymor yr hydref yn cychwyn gyda'r **Llwynog Trefol** ym mis Medi, Ynys **Inchkeith** yn yr Alban ym mis Hydref, **Tylluanod y Nos** ym mis Tachwedd a bathodyn **Robin** ym mis Rhagfyr. Bydd bathodynnau'n cael eu cyflenwi bob tymor, gydag adnoddau'r hydref yn cyrraedd yn gynnar ym mis Medi, y gwanwyn erbyn diwedd mis Ionawr, a'r haf cyn diwedd mis Ebrill.

Rhannwch eich straeon ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #WalkToSchool / #CerddedIrYsgol a thagiwch ni @livingstreets (neu @livingstreetsuk ar Facebook)

Edrychwn ymlaen at gydweithio i helpu mwy o blant i fwynhau manteision cerdded i'r ysgol.

Cofion gorau,
Living Streets

133 Whitechapel High Street, Aldgate, E1 7QA
020 7377 4900 info@livingstreets.org.uk livingstreets.org.uk

Living Streets (The Pedestrians Association) is a Registered Charity No. 1108448 (England and Wales) and SC039808 (Scotland).
Company Limited by Guarantee (England & Wales), Company Registration No. 5368409. 133 Whitechapel High Street, Aldgate, E1 7QA